**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Newydd a Heol Cilgant hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Theras yr Abaty.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A483 tua'r gogledd i Gylchfan Rhosmaen, yr A40 tua'r gorllewin drwy Gylchfan Abergwili i Gylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin a'r A48 tua'r dwyrain i Gylchfan Pont Abraham i ymuno â'r A483 tua'r gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 23 Chwefror 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch – 06:30 o'r gloch) rhwng 23 a 27 Chwefror 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (RHOSMAEN STREET, LLANDEILO, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Llandeilo, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the trunk road known as Rhosmaen Street that extends from the centre-point of its junction with New Road and Crescent Road to the centre-point of its junction with Abbey Terrace.

The alternative route for southbound vehicles is via the northbound A483 to Rhosmaen Roundabout, westbound A40 via Abergwili Roundabout to Pen-sarn Roundabout, Carmarthen and eastbound A48 to Pont Abraham Roundabout to join the northbound A483: vice versa for northbound vehicles.

The Order comes into force on 23 February 2026. The temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 – 06:30 hours) from 23 – 27 February 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government